

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Y pellter a deithiwyd i'r gwaith

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Pob person	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
Yr holl breswylwyr arferol rhwng 16 a 74 oed a oedd mewn gwaith yr wythnos cyn y Cyfrifiad	80,680		81,951		1,363,615		1,368,449		26,526,336		27,773,665	
Llai na 2km	13,248	16.4%	9,864	12.0%	233,969	17.2%	158,919	11.6%	4,404,107	16.6%	3,057,913	11.0%
Rhwng 2km a 5km	8,744	10.8%	7,382	9.0%	223,884	16.4%	163,384	11.9%	4,851,173	18.3%	3,499,333	12.6%
Rhwng 5km a 10km	7,827	9.7%	6,726	8.2%	230,182	16.9%	174,625	12.8%	4,595,170	17.3%	3,273,927	11.8%
Rhwng 10km a 20km	15,982	19.8%	13,855	16.9%	219,329	16.1%	174,245	12.7%	4,067,393	15.3%	2,924,547	10.5%
Rhwng 20km a 30km	7,899	9.8%	6,504	7.9%	91,306	6.7%	75,403	5.5%	1,531,161	5.8%	1,127,371	4.1%
Rhwng 30km a 40km	2,602	3.2%	2,072	2.5%	38,210	2.8%	31,059	2.3%	680,415	2.6%	470,353	1.7%
Rhwng 40km a 60km	2,518	3.1%	1,824	2.2%	29,844	2.2%	22,351	1.6%	616,333	2.3%	358,932	1.3%
60km a throsodd	3,460	4.3%	2,140	2.6%	48,322	3.5%	27,546	2.0%	822,306	3.1%	382,608	1.4%
Yn gweithio gartref yn bennaf	11,630	14.4%	19,243	23.5%	142,178	10.4%	350,470	25.6%	2,724,010	10.3%	8,671,722	31.2%
Arall	6,770	8.4%	12,341	15.1%	106,319	7.8%	190,447	13.9%	2,234,268	8.4%	4,006,959	14.4%

Ffynhonnell: Ystadegau Allweddol Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2022
Cynhyrchwyd gan y Tîm Dealltwriaeth Data Corfforaethol, Cyngor Sir Caerfyrddin

Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r [Drwydded Llywodraeth Agored](#)
E-bost: Data@sirgar.gov.uk

Dadansoddiad:

- Mae nifer a chyfran y preswylwyr sy'n teithio i'r gwaith ym mhob categori o bellter (o 'Llai na 2km' i '60km a throsodd') wedi gostwng yn Sir Gaerfyrddin, Cymru, a Chymru a Lloegr. Mae'r nifer uchaf yn Sir Gaerfyrddin yn teithio rhwng 10 ac 20km i'r gwaith ond mae wedi gostwng 2.9 pwynt canran ers cyfrifiad 2011.
- Mae gostyngiad yn y ffigyrau uchod yn bennaf oherwydd y cynnydd yn y nifer sy'n gweithio gartref gyda chynnydd o 9.1 pwynt canran yn Sir Gaerfyrddin, 15.2 yng Nghymru a 20.9 yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliwyd y cyfrifiad ym mis Mawrth 2021 yng nghanol pandemig Covid-19 pan ofynnwyd i bobl 'weithio gartref lle bynnag y bo modd', felly mae'n bosib iawn bod hyn yn wahanol erbyn hyn

Diffiniad:

- Y pellter, mewn cilomedrau, rhwng côd post preswyl person a chôd post ei weithle drwy fesur mewn llinell syth. Mae pellter a deithiwyd o 0.1km yn nodi bod côd post y gweithle yr un peth â'r cod post preswyl. Mae pellteroedd dros 1200km yn cael eu trin yn annilys, ac mae gwerth priodoleddig neu amcangyfrif yn cael ei ychwanegu
- Mae "Gweithio gartref neu o gartref yn bennaf" yn cynnwys y rheiny a ddiiodd naill ai'r blwch 'Gweithio gartref neu o gartref yn bennaf' ar gyfer y cwestiwn ynghylch cyfeiriad gweithle, neu'r blwch "Gweithio gartref neu o gartref yn bennaf" ar gyfer y cwestiwn ynghylch y dull o deithio i'r gwaith.
- Mae "Arall" yn cynnwys y rheiny sydd heb fan gwaith sefydlog, gweithio ar osodiad ar y môr a gweithio y tu allan i'r DU.
- Mae pellter yn cael ei gyfrif fel y pellter llinell syth rhwng y côd post cyfrif a chôd post y gweithle.